**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU A - COFNOD PENDERFYNIADAU - 13 HYDREF 2020**

**YN BRESENNOL:**

**Cynghorwyr** – D Lewis (Cadeirydd), G Thomas, M Kearn, J Williams, A Pucella, R Collins a T Beedle

**Swyddogion** – N Dennison, Y Witchell, MA Galvin a K Stephens

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HURIO PREIFAT** |
| Penderfyniad | Ystyriodd y Pwyllgor y cais i gofrestru cerbyd KJ18 HHZ fel Cerbyd Hurio Preifat.<br><br>Nododd yr Aelodau nad yw'n cael ei gynnwys o fewn polisi 2.1 o Bolisi Trwyddedu'r Cyngor am y rhesymau a amlinellir yn yr adroddiad.<br><br>Nododd yr Aelodau y gellid llacio'r polisi, fel y nodir ym mharagraff 2.2 o'r polisi, os yw'r cerbyd o ansawdd eithriadol y tu mewn a'r tu allan, a bod y safonau diogelwch yn eithriadol. O'r herwydd, rhoddodd yr Is-bwyllgor y drwydded. |
| Teitl yr Adroddiad | **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1982 CAIS AM ADNEWYDDU TRWYDDED SIOP RHYW**<br>**THE PRIVATE SHOP 72 BRIDGEND ROAD ABERCYNFFIG** |
| Penderfyniad | Bod yr Is-bwyllgor wedi cytuno i adnewyddu'r Drwydded uchod, yn amodol ar y telerau a'r amodau presennol. |